**RHYBUDD o benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Mai, 2021.**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)

Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams.

Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio (Cynllunio)

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Richard Owain Jones

**Hefyd yn Bresennol**: Aelodau Lleol : Cynghorwyr Carwyn Jones (cais 7.1); Llinos M Huws (cais 7.2); R Meirion Jones and Alun Mummery (cais 11.1); J Arwel Roberts and Dafydd R Thomas (cais 12.1).

Cynghorwyr Gwilym O Jones, Bob Parry OBE FRAgS.
Mr Gareth W Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

(1.00 o'r gloch yp - 2.30 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu'r Cynghorydd Eric Jones ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â cais 11.1.<br><br>Bu'r Cynghorydd Dafydd Roberts ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â cais 11.1. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd John Griffith fel Aelod a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau safle rhithiol a gynhaliwyd ar 21 Ebrill, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Cafwyd siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.2 ac 11.1. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 FPL/2020/164 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i llety gwyliau ynghyd a'i addasu ac ehangu yn Bwthyn Lleiniog, Penmon, Biwmares**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd ag amod ychwanegol y dylid lledaenu mynedfa'r safle cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle.**<br><br>**7.2 FPL/2021/10 – Cais ôl weithredol ar gyfer codi modurdy ar dir ger Bron Castell, Llanfairynghornwy**<br><br>**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddogion gan yr ystyriwyd fod y datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr eiddo cyfagos a'i fod yn groes i bolisi cynllunio PCYFF2.**<br><br>***(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd am ganiatáu'r cais).*** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **10.1 VAR/2020/76 – Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) o penderfyniad apêl rhif APP/L6805/A/17/3167404 (Codi annedd) er mwyn diwygio lleoliad yr annedd a'r mynedfa i gerbydau ar dir ger Brynteg, Llansadwrn**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd ag amod ychwanegol yn atal gweithrediad y caniatâd gwreiddiol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 FPL/2020/98 – Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw gwaith peirianneg o greu llain galed at ddefnydd storio amaethyddol a defnydd datblygiad a ganiateir fel safle cîst car ynghyd â chadw'r addasiadau a wnaed i'r fynedfa i gerbydau ar dir yn Cae Prytherch, Llanfairpwll**<br><br>**PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Gwrthod y cais i gadw gwaith peirianneg o greu llain galed ar y safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog fel a amlinellwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Swyddog.**<br><br>• **Gwrthod y cais i gadw'r addasiadau a** |

| | |
|---|---|
| | **wnaed i'r fynedfa gerbydau yn y safle gan yr ystyriwyd eu bod yn groes i bolisiau PCYFF 2 a 3 a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog.**<br><br>***(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd am ganiatáu'r cais).*** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 FPL/2021/38 – Cais llawn ar gyfer gosod 2 pod glampio ynghyd â chreu mynedfa newydd a datblygiadau cysylltiedig ar dir ger Gwel y Môr, Bae Treaddur.**<br><br>**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle rhithiol yn unol â chais yr Aelod Lleol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |